PDF Argraffu Cyfeirnodi

# BOWEN, D. E. (fl. 1840-1880), golygydd, awdur, a gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn U.D.A.

**Enw:** D. E. Bowen
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** golygydd, awdur, a gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn U.D.A.
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn sir Forgannwg, eithr ymfudodd i U.D.A. pan oedd yn ieuanc. Bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr Cymreig yn Carbondale, Pennsylvania, am gyfnod. Daeth i amlygrwydd fel golygydd *Y Gwyliedydd* (1843), cylchgrawn cyntaf Bedyddwyr Cymraeg U.D.A., a'i olynydd *Y Seren Orllewinol* (1844). Y mae'n bosibl mai efe hefyd a oedd yn gyfrifol am *Y Beread* (1841), cylchgrawn pythefnosol at wasanaeth y Bedyddwyr. Cyhoeddodd *The Berean; or Miscellaneous Writings of the Reverend D. E. Bowen, Carbondale, Pa.* (Carbondale, d.d.), a *Lecture on the Life and Genius of the Reverend John Williams, Senior Pastor of the Oliver Street Baptist Church, New York*(New York, d.d.).

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau

*Y Seren Orllewinol*, 1844, 10

*Llawysgrif Ashby yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor*

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821091

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Owen, R. (., (1953). BOWEN, D. E. (fl. 1840-1880), golygydd, awdur, a gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn U.D.A.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BOWE-DE0-1840

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government